

ffotogallery

Cyflwyniad i'r Rôl: Swyddi Kickstart (6 swydd)



Pwy ydych chi?

Rydych yn berson creadigol, sy'n frwdfrydig iawn ynghylch y celfyddydau gweledol a'u potensial i ennyn diddordeb pobl o bob math o gefndiroedd. Rydych yn croesawu'r cyfle i ddod yn rhan o dîm bychan, dynamig ac uchelgeisiol a chyfrannu at y broses o gynllunio a darparu prosiectau creadigol.

Efallai bod gennych rywfaint o brofiad; efallai bod hwn yn berthnasol i'r sector creadigol, efallai ddim, ond mae rhai sgiliau trosglwyddadwy a phrofiad gennych y gallwch eu defnyddio ar gyfer y rôl hon.

Rydych yn dod ag agwedd bositif gyda chi ynghyd â pharodrwydd i ddysgu a datblygu yn y rôl hon. Rydych wedi ymrwymo i ehangu mynediad, cynhwysiad ac amrywiaeth yn y celfyddydau, ac rydych yn mwynhau cydweithio gyda phobl eraill, sy'n cynnwys artistiaid, addysgwyr, cynulleidfaoedd a phartneriaid prosiect.

Rydych yn fodlon teithio i Gaerdydd i weithio neu i ail leoli, os oes raid, a byddwch yn derbyn cefnogaeth i wneud hynny. Neu efallai bod gennych anghenion arbennig sydd angen cymorth ychwanegol ac sy'n gofyn addasu'r amgylchedd gwaith a'r trefniadau gwaith arferol; bydd Ffotogallery yn ymdrechu i ymdrin ag unrhyw anghenion sydd gennych, o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael.

Pwy ydym ni?

O'n dyddiau cyntaf dros ddeugain mlynedd yn ôl, mae Ffotogallery wedi credu yng ngrwm y celfyddydau gweledol i weddnewid bywydau pobl, p'un a ydynt yn ffotograffwyr ac artistiaid

uchelgeisiol sydd eisiau mynegi eu hunain drwy eu gwaith, neu'n aelodau o gynulleidfa sy'n cael cipolwg newydd ar y byd drwy'r delweddau y maen nhw'n dod ar eu traws mewn arddangosfa, mewn llyfr neu ar-lein.

Ein gweledigaeth yw y bydd pawb yn gallu mwynhau profiadau gweddnewidiol drwy ffotograffiaeth a'i chyfyngau cysylltiedig. Mae'n bwysig i ni bod ein harddangosfeydd a'n digwyddiadau a'n gweithgareddau cyhoeddi, dysgu ac ymgysylltu'n cysylltu â chymunedau a chymdogaethau sy'n ddiwylliannol amrywiol yng Nghaerdydd a Chymru, gan sicrhau bod yr holl drigolion yn gallu cyfrannu at ein llwyddiant ac elwa ohono. Drwy ein cynnig ar-lein estynedig a thrwy gymryd arddangosfeydd Ffotogallery ar daith, drwy ein cyhoeddiadau a thrwy bedair gŵyl flaenorol Diffusion: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Caerdydd, mae estyniad ac effaith ein gwaith yn ymestyn ar draws y glôb.

Ym mis Medi 2019 aethom ati i symud i'n cartref presennol yng Nghaerdydd, sydd yn ystafell beiriant ac yn ystafell arddangos; man lle cynhyrchir syniadau newydd a phrosiectau creadigol ac hefyd leoliad croesawgar lle gall pobl ddod wyneb yn wyneb â ffotograffiaeth gyfoes a chael eu hysbrydoli. Yn ogystal ag oriel a gofod digwyddiadau rhagorol, mae'r ganolfan newydd yn cynnwys ystafell adnoddau/llyfrgell sy'n agored i'r cyhoedd, stiwdio creadigol a siop lyfrau fach. Mae ein gwefan a'n digwyddiadau cymdeithasu, ynghyd â'n gweithgareddau digidol estynedig, yn ein galluogi i rannu ein harddangosfeydd, prosiectau, archifau a gwaith cyfranogol gyda chynulleidfa fyd-eang ehangach, yn ogystal â bod yn llwyfan i farchnata a gwerthu llyfrau a gwasanaethau.

Mae holl waith Ffotogallery ar gyfer y tair blynedd nesaf wedi ei seilio o amgylch y thema *Nifer o Leisiau, Un Genedl*, a'i brif amcanion yw hybu mwy o amrywiaeth ddiwylliannol, mynediad a chynhwysiad, dysgu gydol oes, arloesi a rhagoriaeth. Mae Ffotogallery yn parhau i weithio'n galed i ymdrin ag anghydraddoldeb cymdeithasol; rydym yn gwerthfawrogi'r rôl y gall pobl o bob rhan o'n cymdeithas ei chwarae i greu sîn gelfyddydau egniol. Gwyddom fod y celfyddydau ym Mhrydain, ac yng Nghymru yn arbennig, yn mynd i fod yn gryfach, yn fwy cyffrous ac yn berthnasol i fwy o bobl os byddwn yn croesawu amrywiaeth. Rydym yn edrych ar yr hyn a wnawn a sut yr ydym yn gweithio drwy lygaid ffres yn gyson, gan wybod y bydd hynny'n helpu i adfywio ein dull ac ehangu mynediad i'r celfyddydau.

I ddarllen rhagor am waith Ffotogallery, ewch i'r gwefannau dilynol:

www.fffotogallery.org

www.diffusionfestival.org

<https://www.theplaceicallhome.org/>

Beth fydd gofynion y rolau, dros y chwe mis?

Ynghyd â 5 gweithiwr Kickstart arall, byddwch yn aelod allweddol o'r tîm sy'n cynllunio a darparu'r bumed o'r gwyliau Diffusion: Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Caerdydd yn hydref

2021. Ochr yn ochr ag arddangosfeydd ffotograffig mwy confensiynol, mae'r wyl yn cynnwys sinema ymgolli 360 gradd gyda pherfformiad byw, realiti rhithwir a gosodweithiau digidol rhyngweithiol, portreadau ffotograffig 3D a cherddoriaeth, fideo a thafluniad.

Sut fydd Covid-19 yn effeithio ar y rôl?

Rydym yn byw mewn cyfnod ansicr o ran y cyfyngiadau a allai gael eu rhoi ar deithio, cynulliadau cyhoeddus a mynediad i'n gweithle. Parhaodd y tîm i weithio yn ystod y cyfnod clo gan olygu y gallem fod yn hyblyg yn y ffordd yr oedd ein gwaith wedi'i strwythuro ac y gallem gynnal cydbwysedd cartref/gweithle o ran ein hamserlen. Mae mesurau newydd yn eu lle erbyn hyn sydd wedi eu llunio i sicrhau hyder a lles y staff a'r ymwelwyr, ac mae eu hiechyd a'u diogelwch hwy'n parhau i fod o'r pwysigrwydd mwyaf i ni. O ganlyniad i'r sefyllfa sy'n newid yn barhaol, byddwn yn trafod trefniadau gwaith priodol i chi yng ngyd-destun eich rôl a'r canllawiau iechyd cyhoeddus.

Pa gymorth all Ffotogallery ei gynnig i mi?

Rydym yn cynnal rhaglen datblygu staff, sy'n cynnwys cynlluniau hyfforddi a datblygu unigol. Yn ogystal â chyfnod cynefino a chymorth parhaus yn y rôl, byddwn yn rhoi hyfforddiant i chi fel sy'n ofynnol mewn perthynas â'r swydd ei hun, ynghyd â mentora a chyingor am eich cyflogaeth yn y dyfodol y tu hwnt i'r cyfnod hwn.

Byddwn yn eich helpu i gyrraedd eich potensial llawn drwy roi hyfforddiant, drwy gynnig y cyfle i chi ehangu eich gwybodaeth a'ch profiad, a thrwy eich helpu i gynllunio eich camau nesaf o ran cynnydd gyrfaol.

Y tâl a'r oriau

Rydym yn rhoi'r Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol am bob rôl, am 28 awr yr wythnos wedi eu lledaenu dros oriau agor busnes Ffotogallery (9.30am – 5.30pm Dydd Llun i Ddydd Sadwrn); mae'n bosibl y gallai'r oriau sy'n ofynnol bob wythnos gynyddu wrth ddynesu at adeg Diffusion. Byddwn yn amserlennu dyddiau gwaith pob aelod o staff i gyd-fynd â hynny.

Mae disgrifiad o bob rôl isod.

1) Cynorthwydd Marchnata a Chyfathrebu

Trwy weithio'n agos â'r Rheolwr Gweithredoedd, mae rôl y Cynorthwydd Marchnata a Chyfathrebu'n canolbwyntio ar gydlynu a darparu gweithgareddau marchnata, yn y wasg, ar y cyfryngau a thrwy gysylltiadau cyhoeddus er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr, adeiladu ymgysylltiad â'r gynulleidfa, a sicrhau bod yr wyl yn derbyn mwy o sylw ac yn fwy gweledol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Bydd y tasgau'n cynnwys:

- Datblygu cynnyrch ar y we ac yn y cyfryngau cenedlaethol, gan gynnwys creu a chynhyrchu cynnwys wedi'i amserlennu, a monitro ac adrodd am y rhyngweithio ar Twitter, Facebook ac Instagram
- Creu cynnwys a chynhyrchu a dosbarthu deunydd ar-lein ac mewn print
- Cynorthwyo â'r gwaith o drefnu digwyddiadau hyrwyddo, a bod yn bresennol mewn digwyddiadau i gynrychioli Ffotogallery
- Darparu gwybodaeth, gwahoddiadau a diweddariadau rheolaidd am ddigwyddiadau a gweithgareddau Ffotogallery

Sgiliau a phrofiad hanfodol

Mae eich profiad bywyd, eich brwdfrydedd a'ch angerdd am y celfyddydau'n bwysicach i ni na chymwysterau ffurfiol a'r gwaith cyflogedig rydych wedi'i wneud yn y gorffennol. Ond, mae'n rhaid i chi fod yn hyderus wrth weithio gyda gwahanol offer a phlatfformau'r cyfryngau, rheoli ffeiliau digidol a chreu cynnwys newydd i'w lwytho ar y we ac ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol.

2) Cynhyrchydd Digidol

Mae rôl y Cynhyrchydd Digidol yn canolbwyntio ar gynhyrchu asedau digidol – fideos, sleidiau, arddangosfeydd rhithwir ac adnoddau dysgu i'w lawrlwytho – i'w dosbarthu drwy sianelau a phlatfformau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hynny'n gofyn bod gennych sgiliau creadigedd digidol, eich bod yn ddyfeisgar a bod gennych agwedd ymarferol tuag at bob cam o'r broses gynhyrchu.

Bydd y Cynhyrchydd Digidol yn cysylltu â Thîm Ffotogallery, artistiaid, partneriaid, gweithwyr llawrydd a chyflenwyr, fel y bo'n ofynnol, i gynllunio a darparu'r rhaglen ymgysylltiad digidol. Yn benodol i:

- Gynhyrchu cynnwys creadigol ar gyfer y platfformau cyfryngau cymdeithasol a'r we ac adnoddau a gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu i gyd-fynd â'r rhain
- Darparu teithiau dan arweiniad i ymwelwyr a helpu i ddarparu ein digwyddiadau a'n gweithgareddau sy'n ymwneud â'r cyhoedd
- Derbyn hyfforddiant a chymryd cyfleoedd datblygiad proffesiynol, fel y bo'r gofyn
- Gwneud gweithgareddau ychwanegol penodol fel sy'n ofynnol gan y rôl, ar gais y Cyfarwyddwr

Sgiliau a phrofiad hanfodol

Mae eich profiad bywyd, eich brwdfrydedd a'ch angerdd am y celfyddydau'n bwysicach i ni na chymwysterau ffurfiol a'r gwaith cyflogedig rydych wedi'i wneud yn y gorffennol. Ond, mae'n rhaid i chi fod yn hyderus wrth weithio gyda gwahanol offer a phlatfformau'r cyfryngau, rheoli ffeiliau digidol a chreu cynnwys newydd i'w lwytho ar y we ac ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol.

3) Cynorthwydd Arddangosfeydd a Digwyddiadau (2 swydd)

Mae rôl y Cynorthwydd Arddangosfeydd a Digwyddiadau'n canolbwyntio ar ryngweithio ag artistiaid, gwesteion rhyngwladol ac ymwelwyr ag arddangosfeydd a digwyddiadau Ffotogallery. Byddwch yn cyfrannu at y gwaith o baratoi arddangosfeydd a gweithgareddau rhyngweithiol, a'r gwaith o'u cynnal nhw o ddydd i ddydd, gan weithio gyda thîm Ffotogallery a gwirfoddolwyr ar ddigwyddiadau sy'n wynebu'r cyhoedd, a darparu goruchwyliaeth reng flaen a gwasanaethau 'arweinydd byw'.

Bydd y cyfrifoldebau'n cynnwys:

- Paratoi arddangosiadau a'r manau cynnal gweithdai/derbynfeydd
- Gofalu am y manau arddangos a'r cyfleusterau i'r cyhoedd
- Rhoi croeso a phrofiadau 'arweinydd byw' i ymwelwyr
- Darparu digwyddiadau a gweithgareddau i ennyn diddordeb y cynulleidfaoedd a'r cyfranogwyr
- Rhoi cymorth gweithredol a gwerthu a goruchwyllo mewn amrywiol safleoedd
- Casglu data ac adborth y gynulleidfa at ddibenion gwerthuso
- Rhyngweithio ag aelodau'r cyhoedd, gan weithio fel aelod o'r tîm

Sgiliau a phrofiad hanfodol

Mae eich profiad bywyd, eich brwdfrydedd a'ch angerdd am y celfyddydau'n bwysicach i ni na chymwysterau ffurfiol a'r gwaith cyflogedig rydych wedi'i wneud yn y gorffennol. Ond, mae'n rhaid i chi fod yn hyderus wrth ymdrin â'r cyhoedd a gallu cyfathrebu'n effeithiol ag ymwelwyr ac aelodau eraill tîm Ffotogallery.

4) Cynorthwydd Technegol

Trwy ganolbwyntio ar sgiliau technegol ymarferol, bydd y Cynorthwydd Technegol yn cyfrannu at y gwaith o baratoi a chynnal y manau arddangos a'r gwaith o osod

arddangosfeydd, gan weithio'n agos â'r Cyfarwyddwr, Rheolwr Arddangosfeydd a thechnegwyr llawrydd. Bydd y tasgau'n cynnwys:

- Adeiladu arddangosfeydd a'r manau cynnal gweithdai/derbynfeydd
- Peintio ac ailosod
- Gosod a thynnu gwaith celf
- Cynnal, storio a threfnu offer a chyfarpar
- Darparu cymorth technegol a gweithredol ar gyfer arddangosfeydd a gweithgareddau a digwyddiadau cysylltiedig
- Rhoi cymorth gweithredol a gwerthu a goruchwyllo mewn amrywiol safleoedd
- Dilyn rheolau a rheoliadau iechyd a diogelwch
- Rhyngweithio ag aelodau'r cyhoedd, gan weithio fel aelod o'r tîm

Sgiliau a phrofiad hanfodol

Mae eich profiad bywyd, eich brwdfrydedd a'ch angerdd am y celfyddydau'n bwysicach i ni na chymwysterau ffurfiol a'r gwaith cyflogedig rydych wedi'i wneud yn y gorffennol. Ond, mae'n rhaid i chi fod yn hyderus wrth drin offer, rhaid bod gennych sgiliau clyweledol da ac hefyd wybodaeth am yr hyn sy'n ofynnol wth osod cyfarpar a rhoi cefnogaeth dechnegol a gweithredol mewn digwyddiadau

5) Cynorthwydd Gweinyddol

Trwy weithio'n agos â'r Rheolwr Gweithrediadau, mae rôl y Cynorthwydd Gweinyddol yn canolbwyntio ar gynnal systemau cyllid, gweithrediadau a gweinyddol effeithiol, yn arbennig:

- Sicrhau bod anfonebau a thaliadau'n cael eu cofnodi a bod cofnodion cyflenwyr yn cael eu diweddarau a'u cynnal, ac ati.
- Sicrhau bod y systemau rheoli ar gyfer y dderbynfa ac ymwelwyr yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod digon o weithwyr i gymryd lle unrhyw staff neu wirfoddolwyr sy'n absennol er mwyn cadw'r busnes yn rhedeg yn esmwyth
- Rhoi cymorth gweinyddol a gweithredol ar gyfer cynllunio a darparu digwyddiadau, ymweliadau grŵp a gweithgareddau y mae pobl yn cyfranogi ynddynt yn ein canolfan ac yn ystod gŵyl Diffusion
- Diweddarau cofnodion gwyliau a chalendarau yn rheolaidd
- Ymdrin ag ymholiadau gan gwsmeriaid, ar y ffôn ac wyneb yn wyneb, a chefnogi'r dderbynfa flaen.
- Yr holl ddyletswyddau eraill sy'n berthnasol i'r uchod

Sgiliau a phrofiad hanfodol

Mae eich profiad bywyd, eich brwdfrydedd a'ch angerdd am y celfyddydau'n bwysicach i ni na chymwysterau ffurfiol a'r gwaith cyflogedig rydych wedi'i wneud yn y gorffennol. Ond, mae'n rhaid i chi fod yn ddibynadwy a threfnus o ran sicrhau bod y meysydd gwaith uchod yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac yn brydlon er mwyn gwneud yn siŵr bod y busnes yn rhedeg yn esmwyth ac y rhoddir pob gofal i'r cwsmer